**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ar Ddydd Llun, 9 Mehefin 2014.**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 12 Mehefin , 2014. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 19 Mehefin, 2014. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 20 Mehefin, 2014.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones, J A Roberts, Alwyn Rowlands ac Ieuan Williams (Cadeirydd)

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Ann Griffith (Eitem 9), John Griffith (Eitemau 7 a 8), Llinos Huws (Eitem 12), R Llewelyn Jones (Eitem 9, 12 a 13), Bob Parry OBE (Eitem 8), R Meirion Jones (Eitem 11).

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10.00 - 11.15 o'r gloch)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Mai 2014 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **D/B** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **D/B** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cadarnhau'r Flaenraglen Waith newydd am y cyfnod Mehefin, 2014 - Ionawr, 2015.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau o ran cynllunio ymlaen.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adroddiad Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg**<br>Adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer 2013/14 a chymeradwyo ei gyflwyno i'r Comisiynydd Iaith Gymraeg.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gydymffurfio â gofynion statudol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Polisi ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor i Bensiynwyr 2014/15**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynllun y Cyngor Sir am 2014/15.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I ymestyn Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Pensiynwyr am 2014/15.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Canlyniadau Cyllideb Gyfalaf 2013/14**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fonitro'r gyllideb gyfalaf ar lefel gorfforaethol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Cyllideb Refeniw 2013/14 – Alldro Dros Dro**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fonitro'r gyllideb refeniw ar lefel gorfforaethol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Darparu Gwasanaeth Cymuned / Gofal Cartref**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cymuned |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD**<br>• **Cymeradwyo'r cynnig bod y ddarpariaeth o wasanaethau gofal cartref yn cael eu rhannu ar sail 70% i'w darparu'n allanol a 30% i'w darparu'n fewnol.**<br>• **Y bydd y dangosydd perfformiad perthnasol yn cael ei fonitro ar y cerdyn sgorio corfforaethol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gadw'r ddarpariaeth o ofal a chwrdd â'r galw cynyddol yn y dyfodol am wasanaeth gofal cartref.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Opsiynau mewn perthynas â sicrhau gwelliannau i'r A5025 i hwyluso cynigion datblygu Pwer Niwclear Horizon**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD**<br>• **I nodi'r trafodaethau hyd yn hyn gyda Horizon Nuclear Power (HNP) mewn perthynas â'r gwaith gwella ac adeiladu posibl y bydd angen ei wneud i'r A5025 i hwyluso'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer** |

| | |
|---|---|
| | **niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa;**<br>• **Awdurdodi Swyddogion i fwrw ymlaen â thrafodaethau gyda HNP i sefydlu'r dull mwyaf priodol i sicrhau cyflawni'r gwaith y mae angen ei wneud ar yr A5025 yn cynnwys gwaith ymchwilio mewn partneriaeth â HNP a thrafod a llunio fframwaith ar gyfer symud ymlaen gyda chytundeb.**<br>• **Nodi y bydd unrhyw drefniadau cydweithio/partneriaeth a sefydlir dan yr uchod yn cael eu cyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn hwyluso'r gwaith tebygol sydd angen ei wneud i'r A5025 i hwyluso'r gwaith o adeiladu'r orsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Gostwng yr oed mynediad i Ysgol Llanfairpwll**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD rhoi'r awdurdod i swyddogion ymgynghori ar y bwriad i ostwng oed mynediad i Ysgol Llanfairpwll.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mewn ymateb i'r cais gan Gorff Llywodraethwyr Ysgol Llanfairpwllgwyngyll.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Cynyddu Pris Prydau Ysgol**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD y bydd pris pob pryd ysgol yn codi gan 10c o fis Medi 2014.** |

| | |
|---|---|
| | |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gwrdd yn rhannol â'r cynnydd a ddisgwylir yn y costau i'r awdurdod.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Cais i ddelio â'r Diffyg yng Nghyllideb Ysgolion**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cytuno i'r bwriad i ddefnyddio arian wrth gefn yr Adran Dysgu Gydol Oes i gefnogi cynllun adfer cyllideb ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fynd i'r afael â materion cyllido hanesyddol. Yr arian wrth gefn i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer unrhyw arbedion a wneir gan yr ysgol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ar sail punt am bunt.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |